GWASANAETH CEFNOGI TENANTIAID

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

Rydym yn credu bod gan bawb hawl i gartref. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod efallai bod angen cymorth neu gefnogaeth ychwanegol ar rai unigolion i gynnal eu tenantiaeth.

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel Braille, llythrennau bras, neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.

Pwrpas y gwasanaeth yma yw cefnogi tenantiaid bregus. Mae'n rhoi grym i unigolion allu cadw'r denantiaeth, drwy fagu a datblygu sgiliau bywyd, i fyw yn annibynnol yn y gymuned, ac i atal digartrefedd.

Mae gwasanaeth Swyddog Cefnogi Tenantiaid yn cynnwys:

- Cyngor ar faterion cyllidebu a thrin arian
- Cymorth i gynnal a chadw llety
- Cymorth i gynyddu a datblygu sgiliau angenrheidiol i alluogi unigolion i gynnal tenantiaeth
- Cymorth i gynyddu a datblygu sgiliau bywyd
- Cymorth i ddeall hawliau a chyfrifoldebau
- Rhoi arweiniad a gwybodaeth ar gyfleoedd gwaith, addysg a hyfforddiant
- Cymorth gyda llenwi ffurflenni a cheisiadau, hawlio budd-daliadau
- Mynediad i asiantaethau priodol

Pwy sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth:

- Tenantiaid sy'n cael trafferth â dyledion
- Tenant newydd sydd angen cymorth
- Tenant gyda phroblemau iechyd

Sut i wneud cais i dderbyn cefnogaeth

Mae modd i chi wneud cais drwy lenwi'r ffurflen yn y daflen hon a'i hanfon yn ôl atom neu drwy ffonio Swyddog Cefnogi Tenantiaid ar 0300 123 8084.

FFURFLEN HUNAN GYFEIRIO

Beth i'w wneud....

1. Cwblhewch y ffurflen isod
2. Plygwch a seliwch y ffurflen fel bod eich manylion yn ddiogel
3. Postiwch at CCG. Cysylltwch â'r Swyddog Cefnogi Tenantiaeth ar 0300 123 8084 os ydych chi angen mwy o wybodaeth.

Enw: .....

Cyfeiriad: .....

.....

..... Cod post: .....

Rhif cyswllt: .....

Rhowch grynodeb o'r gefnogaeth sydd ei angen:

.....

.....

.....

.....

Llofnod: .....

Dyddiad: ..... /..... /.....

PLYGWCH

PLYGWCH

Swyddog Cefnogi Tenantiaid
Cartrefi Cymunedol Gwynedd
PO BOX 206
Bangor
Gwynedd
LL57 9DS